
Hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr

Trosolwg byr o'n cynlluniau

1. Trosolwg byr o'n cynlluniau

- 1.1 Mae angen rhwydweithiau cyfathrebu dibynadwy ar bobl a busnesau fwy nag erioed. Mae rhwydweithiau ffeibr llawn, wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chartrefi a swyddfeydd, yn darparu band eang cyflymach a mwy dibynadwy, a byddant yn galluogi'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol (5G).
- 1.2 Mae gennym ni, ochr yn ochr â'r Llywodraeth, uchelgais i gael band eang ffeibr llawn dros y wlad i gyd dros y blynyddoedd nesaf – mewn cymunedau gwledig i'r un graddau â threfi a dinasoedd. Nod Ofcom ydy annog a galluogi buddsoddiad sylweddol a hirdymor mewn band eang ffeibr llawn. Bydd hynny'n rhoi dewis o rwydweithiau i gwsmeriaid, lle bo'n ymarferol, gan ganiatáu i'r cwmnïau sy'n adeiladu'r rhwydweithiau hyn gael enillion teg ar yr un pryd.

Galluogi'r gwaith o foderneiddio seilwaith telegyfathrebiadau'r DU

- 1.3 Mae ein strategaeth ar gyfer buddsoddi mewn ffeibr wedi'i rhannu'n dri: hyrwyddo rhwydweithiau cystadleuol i'r graddau mwyaf posibl, gan ddefnyddio pibellau a pholion Openreach i leihau'r gost o adeiladu rhwydwaith, gyda phrisiau wedi'u rheoleiddio sy'n cefnogi cystadleuaeth; galluogi buddsoddiad drwy'r ffordd rydym yn gosod prisiau wedi'u rheoleiddio mewn ardaloedd mwy gwledig lle na fydd llawer o gystadleuaeth rhwydwaith; a chefnogi ymyriadau cyhoeddus i gyflenwi ffeibr yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd.
- 1.4 Mae'r buddsoddiadau mewn band eang ffeibr llawn yn tyfu a thyfu. Gall ymrwymïadau cyfredol gan y cwmnïau band eang weld hyd at chwe miliwn o safleoedd yn cael mynediad at ffeibr llawn erbyn 2020. Y llynedd, dangosodd Llywodraeth y DU gefnogaeth gref i ffeibr llawn, ac mae am weld 15 miliwn o safleoedd yn cael eu cysylltu erbyn 2025. Roedd ei Hadolygiad o Seilwaith Telegyfathrebiadau yn y Dyfodol yn ategu ein dull gweithredu ac yn nodi y byddai'r Llywodraeth yn fodlon buddsoddi mewn ffeibr llawn mewn ardaloedd anghysbell lle nad yw cwmnïau yn debygol o adeiladu rhwydweithiau oherwydd y gost.
- 1.5 Yn y gorffennol, rydym wedi nodi sut gallai rheoliadau ddatblygu i gefnogi rhagor o fuddsoddiad gan rwydweithiau sy'n ymuno o'r newydd, gan Openreach a gan Virgin Media, drwy'r ffyrdd canlynol:
 - 1) **Cefnogi proses o symud tuag at fynediad anghyfyngedig at bibellau a pholion**, gan roi rhagor o hyblygrwydd i gwmnïau ddefnyddio polion telegraff a phibellau tanddaearol Openreach.
 - 2) **Ystyried marchnadoedd busnes a phreswyl mewn ffordd fwy cyfannol**, gan ganolbwyntio ar hyrwyddo cystadleuaeth drwy gymell cwmnïau i adeiladu rhwydweithiau.
 - 3) **Dulliau rheoleiddio gwahanol mewn gwahanol rannau o'r wlad**, yn dibynnu ar ba mor ddwys ydy'r gystadleuaeth rhwydwaith.

- 4) **Cadw'r cymhellion i Openreach fuddsoddi** mewn ffeibr ledled y wlad drwy gael pecyn teg o fesurau rheoleiddio.
- 5) **Trosglwyddo'n ddiraffferth o'r hen rhwydweithiau copr i rhwydweithiau ffeibr llawn**, gan ddiogelu defnyddwyr yn ystod y broses drosglwyddo.
- 6) **Ymyriad cyhoeddus mewn ardaloedd anghysbell lle nad oes siawns o gystadleuaeth rhwydwaith**
- 7) **Sicrwydd i fuddsoddwyr yn y tymor hir**, gan gynyddu'r cyfnod ar gyfer asesu cystadleuaeth telegyfathrebiadau o dair blynedd i bum mlynedd o leiaf.

1.6 Roeddem wedi nodi cynigion ar gyfer (1) ym mis Tachwedd 2018, ac ar gyfer (2) a (3) ym mis Rhagfyr 2018. Mae cynigion heddiw yn rhoi rhagor o eglurhad mewn cysylltiad ag eitemau (3) i (5).

Cynigion ar gyfer hyrwyddo cystadleuaeth a chryfhau'r cymhellion i fuddsoddi

1.7 Mae ein cynigion diweddaraf wedi'u dylunio i gefnogi newid sylweddol o ran buddsoddi mewn ffeibr gan Openreach, Virgin Media a rhwydweithiau sy'n ymuno o'r newydd fel CityFibre, Hyperoptic a Gigaclear. Maent yn dra gwahanol i'n dull gweithredu hanesyddol mewn cysylltiad â rheoleiddio economaidd. Mae ein cynigion penodol yn rhoi cyfle i bob buddsoddwr gael enillion teg (yr egwyddor 'menter deg') ar rhwydweithiau ffeibr newydd drwy ganiatáu iddynt gynhyrchu'r refeniw uwch a ddisgwylir gan y cyflymder, y dibynadwyedd a'r cadernid mae ffeibr yn ei gynnig.

1.8 Mae ein cynigion penodol yn caniatáu hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- gosod prisiau wedi'u rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau cyflym iawn lefel mynediad a rhoi'r rhyddid i bob gweithredwr, gan gynnwys Openreach, osod prisiau ar gyfer gwasanaethau ffeibr cyflymder uwch ac ansawdd uwch.
- cynnal prisiau sefydlog ar gyfer band eang cyflym iawn lefel mynediad wedi'i reoleiddio Openreach (hyd at 40Mbit yr eiliad), a 'llinellau ar brydles' capasiti uchel yn seiliedig ar gostau'r rhai sy'n ymuno o'r newydd, ac nid costau'r gweithredwr graddfa presennol, BT. Felly, rydym yn caniatáu rhagor o lwfans yn yr haen rhwydwaith i roi digon o lwfans i bob buddsoddwr mewn rhwydwaith.

1.9 Rydym yn credu y bydd y cynigion hyn yn cefnogi cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau yn ardaloedd mwy dinesig y wlad: 70% cyntaf y DU.

1.10 O ran yr ardaloedd mwy gwledig sy'n weddill, lle nad oes siawns o gystadleuaeth rhwydwaith ac achos masnachol gwanach dros fuddsoddi, ni ddylid eu gadael ar ôl. Felly, mae ein cynigion yn cefnogi cystadleuaeth adwerthu barhaus gan gadw'r cymhellion i Openreach fuddsoddi mewn ffeibr llawn, drwy ganiatáu i Openreach rannu costau buddsoddi mewn ffeibr ar draws grŵp ehangach o ddefnyddwyr. Mae hyn yn dra gwahanol i'n dull gweithredu blaenorol ac yn debyg i broses rheoleiddio cyfradd adennill cyfleustodau, neu fodel 'sylfaen asedau rheoledig'. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Openreach fuddsoddi'n broffidiol mewn ffeibr llawn ar risg isel.

- 1.11 Mae galluogi rhwydweithiau 5G i ddatblygu yn yr ardaloedd mwy gwledig yn hollbwysig hefyd, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael ffeibr ar gael i gysylltu'r gorsafoedd sylfaen symudol. I gefnogi hyn, rydym yn cynnig mynediad seiliedig ar gost at 'ffeibr tywyll' Openreach yn yr ardaloedd hyn, gan gynnwys enillion rhesymol ar fuddsoddiad Openreach. Ffeibr tywyll ydy lle mae Openreach yn rhoi mynediad ffisegol at ei geblau ffeibr i gystadleuwyr, gan ganiatáu iddynt gael rheolaeth uniongyrchol ar y cysylltiad. Bydd y dull gweithredu hwn yn caniatáu cyflenwad parhaus ac effeithiol o gapasiti ôl-gludo symudol a chysylltiadau busnes.

Cefnogi'r gwaith o drosglwyddo'n ddiraferth o rwydweithiau copr i rwydweithiau ffeibr

- 1.12 Pan fydd Openreach wedi adeiladu ei rwydweithiau ffeibr llawn, rydym am gefnogi proses ddiraferth, wedi'i rheoli, o drosglwyddo o'r hen rwydwaith copr. Pwrpas hyn ydy sicrhau arbedion o ran cost a chynyddu'r cymhellion i bob darparwr band eang hyrwyddo ffeibr llawn. Rydym yn cynnig fframwaith i helpu Openreach i symud cwsmeriaid o'i rwydwaith copr i rwydweithiau ffeibr yn gyflym ac yn effeithlon, a hynny drwy'r ffyrdd canlynol:
- caniatáu i gynnyrch sy'n cael ei reoleiddio yn y dyfodol symud o'r rhwydweithiau copr i'r rhai ffeibr er mwyn sicrhau diogelwch parhaus i ddefnyddwyr;
 - caniatáu i'r buddsoddwr mewn rhwydwaith wireddu'r 'premiwm gwerth' y mae ffeibr llawn yn ei ddarparu o ran cyflymder, dibynadwyedd a chadernid ar ffurf ychwanegiad i'r pris wedi'i reoleiddio;
 - rhoi rhagor o hyblygrwydd i Openreach osod pris cynnyrch band eang copr i ganiatáu proses wedi'i rheoli o drosglwyddo o wasanaethau copr i wasanaethau ffeibr.
- 1.13 Mae fframwaith rhagweladwy ar gyfer dirwyn rhwydwaith copr Openreach i ben pan fydd y rhwydwaith ffeibr wedi'i adeiladu – wedi'i ategu gan fesurau rheoleiddio – yn lleihau'r risg yn sylweddol i Openreach o ran cyflwyno ffeibr.

Mae rheoleiddio rhagweladwy yn sylfaen allweddol ar gyfer buddsoddiad parhaus mewn ffeibr

- 1.14 Bydd ein cynigion yn rhoi'r sicrwydd i rwydweithiau amgen, i Openreach ac i Virgin Media gyflenwi ffeibr llawn i gartrefi, busnesau a rhwydweithiau 5G y dyfodol.
- 1.15 **Ar gyfer rhwydweithiau sy'n ymuno o'r newydd:** symud i ffwrdd o reolaethau ffioedd seiliedig ar gost sy'n gysylltiedig â gwasanaethau copr, gan felly roi rhagor o gymhelliant i ddarparwr band eang adwerthu, fel Sky, i newid i gyflenwr arall, i ymrwymo i bartneriaeth â chyflenwyr o'r fath, neu i adeiladu eu rhwydweithiau eu hunain. Bydd hyn, ynghyd â mynediad at bibellau a pholion, yn rhoi cymhellion i adeiladu rhwydweithiau cystadleuol.
- 1.16 **Ar gyfer darparwyr band eang adwerthu:** wrth i rwydweithiau cystadleuol gael eu hadeiladu, bydd gan ddarparwyr band eang adwerthu fynediad cyfanwerthol at nifer o rwydweithiau ar delerau masnachol gwahanol. Yn y cyfamser, bydd darparwyr adwerthu yn dal yn gallu cystadlu yn seiliedig ar fynediad at rwydwaith Openreach, oherwydd byddant yn gallu cael y mynediad hwn ar delerau tebyg i'r telerau presennol.

- 1.17 **Ar gyfer Openreach (ac, yn anuniongyrchol, Virgin Media) yn 70% dinesig y DU:** mae ein cynigion yn mynd i'r afael a'r galluogwyr rheoleiddio y mae Openreach wedi dweud yn y gorffennol eu bod yn ei rwystro rhag gwireddu ei uchelgais am 10 miliwn o adeiladau ffeibr llawn, a dylent fod yn sail bellach i raglen fuddsoddi Project Lightning Virgin Media:
- Mae cael gwared ar brisiau wedi'u rheoleiddio sy'n seiliedig ar gost ar gyfer cynnyrch copr presennol yn caniatáu lwfansau uwch, a bydd yn caniatáu dibrisiant cynt o ran hen asedau copr.
 - Gosod rheolaeth ffioedd gymharol uwch ar gyfer FTTP 40/10 nag MPF a FTTC 40/10 i adlewyrchu'r gwerth ychwanegol i gwsmeriaid;
 - Cadw hyblygrwydd prisiau ar gyfer gwasanaethau cyflymder uwch dan yr angor 40/10;
 - Cefnogi proses ragweladwy o drosglwyddo o rwydweithiau copr i rwydweithiau ffeibr, wedi'i hategu gan fesurau rheoleiddio, er mwyn gallu dirwyn y rhwydwaith copr i ben.
- 1.18 **Ar gyfer Openreach yn 30% mwy gwledig y wlad sy'n weddill:** Gallai ein cynigion, sydd wedi'u hanelu at ddiogelu cystadleuaeth adwerthu, roi cymhellion cryfach i Openreach fuddsoddi mewn ffeibr llawn, gan ei gwneud hi'n haws rhannu costau buddsoddi mewn ffeibr ar draws grŵp ehangach o ddefnyddwyr (y model sylfaen asedau rheoledig). Mae hyn, i bob pwrpas, yn cael gwared ar y risg sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn ffeibr llawn yn yr ardaloedd hyn. Rydym yn cydnabod na fydd y model hwn yn gallu cyrraedd rhai ardaloedd yn y rhannau mwyaf anghysbell o'r wlad o hyd. Fel y nodwyd gennym y llynedd, byddai angen rhywfaint o ymyriad cyhoeddus ar yr ardaloedd hyn, a byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau.
- 1.19 **Ond y defnyddwyr fydd yr enillwyr mwyaf.** Dros amser, bydd ein strategaeth yn trawsnewid y profiad o wasanaethau band eang i bobl ac i fusnesau. Bydd yn gwneud hynny drwy ragor o gystadleuaeth, rhagor o fuddsoddiad a gwell gwasanaethau symudol, gan eu diogelu rhag y risg o brisiau rhy uchel ar yr un pryd.